

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Caerffili

2022-2032

Cynllunio ar gyfer dyfodol Addysg
Cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref
Sirol Caerffili

Tudalen gynnwys

Cynnwys	Rhif tudalen
Y weledigaeth ar gyfer y Gymraeg	4
Cyflwyniad a dyheadau	4
Canlyniad 1: Mwy o blant meithrin / plant 3 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg	8
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	8
Beth oedd effaith coronafeirws?	14
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	14
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i wella nifer y plant sy'n mynd i ddosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg?	15
Canlyniad 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / plant 5 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg	16
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	16
Beth oedd effaith coronafeirws?	20
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	20
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y plant sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn 5 oed?	21
Canlyniad 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall	21
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	21
Beth oedd effaith coronafeirws?	23
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	23
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i alluogi i blant wella eu sgiliau Cymraeg?	24
Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer eu cymwysterau asesedig yn Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg	24
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	24
Beth oedd effaith coronafeirws?	27

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	28
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg?	28
Canlyniad 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol	29
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	29
Beth oedd effaith coronafeirws?	30
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	30
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau?	31
Canlyniad 6: Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf ADY)	31
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	31
Beth oedd effaith coronafeirws?	33
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	33
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?	33
Canlyniad 7: Cynyddu nifer y staff addysgu i allu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	34
Beth yw ein sefyllfa bresennol?	34
Beth oedd effaith coronafeirws?	36
Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?	36
Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg?	36

Y Weledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Y flwyddyn 2050: Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb

Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017)

Ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn ein strategaeth Uchelgeisiau a Rennir ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili yw:

Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa o gyfleoedd dysgu, lleoliadau a phrofiadau o ansawdd uchel.

Cyflwyniad a dyheadau

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dangos ei ymrwymiad i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gynhwysol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc dros nifer o flynyddoedd. Gwelir yr ymrwymiad parhaus i ddatblygiad addysg cyfrwng Cymraeg trwy ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a ddarperir drwy ein tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif â'n rhaglenni cyfalaf cyfrwng Cymraeg a Gofal Plant i ddarparu seilwaith o ansawdd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Gwneir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020. Wrth osod targedau, rhoddwyd sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ystod eang o randdeiliaid i weithio tuag at gyflawni uchelgais 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn ogystal â Rhaglen Lywodraethu 2021-2026. Bydd yr arian yn cefnogi ein dyheadau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus waeth beth fo'ch cyd-destun cymdeithasol-ddemograffig. Mae'r cynllun hwn wedi'i gysylltu'n gynhenid â chyflawni ein targedau integredig, gan ddefnyddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili gan gynnwys cynllun Asesu Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027, Strategaeth y Gymraeg 2022-2027 a Chynllun Corfforaethol Caerffili

2018-2023, yn enwedig Amcan 1 – Gwella Cyfleoedd Addysg i Bawb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Amcan 5 – Y Gymraeg. Mae'r cynllun yn dangos pwysigrwydd gwella safonau a galluogi pontio cadarnhaol trwy gydol addysg i addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth cadarnhaol, ynghyd â chysylltiadau cryf â Chaerffili Mwy Cyfartal, Caerffili Mwy Ffyniannus/A More Equal Caerphilly, A More Prosperous Caerphilly yn ogystal â Chaerffili o Ddiwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu.

Bydd y cynllun hefyd yn adlewyrchu ein Strategaeth Drawsnewid #Tîm Caerffili, Gwell Gyda'n Gilydd / #Team Caerphilly, Better Together, *“I greu gallu a rhagwelediad i ddatblygu atebion i rai o heriau mwyaf y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod y Cyngor yn deall ac yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau newidiol ein cymunedau”*.

Ymglymiad – mae yna lawer o randdeiliaid sy'n hanfodol i gyflawni ein targedau cyffredinol o 26% o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 1 erbyn 2031. Mae Fforwm Addysg Cymru (WEF) yn cynnwys aelodau amrywiol o bob rhan o dimau Addysg, Polisi, Uwch Arweinwyr sy'n cynrychioli Ysgolion, Cynghorwyr, Rhwydwaith Rhieni, Menter Iaith Caerffili, Mudiad Meithrin, Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), Cymraeg i Blant, Urdd Gobaith Cymru, Coleg y Cymoedd, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru, a Llywodraeth Cymru. Mae'r hen ddywediad, *‘mae'n cymryd pentref i fagu plentyn’*, yn wir ac mae Fforwm Addysg Cymru yn datblygu drwy'r amser i gynnwys aelodau newydd sydd â diddordeb mewn cyflawni ein targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chefnogi ein cynllun cyfathrebu i hyrwyddo'r manteision o ddatblygu cymuned ddwyieithog. Mae cysylltiadau da rhwng fforwm y Gymraeg a Fforwm Addysg Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig cyson o wneud gwaith hyrwyddo.

Tymor hir – mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn dros gyfnod o ddeng mlynedd ond hefyd yn rhan o ymrwymiad tymor hir uchelgeisiol yn y gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol i ddatblygu ein system Addysg i fod o'r ansawdd uchaf i ddiwallu anghenion blaengar ein dysgwyr. Mae'r system yn cydnabod pwysigrwydd datblygu amgylcheddau ein hysgolion, gan ymgorffori blynyddoedd cynnar mewn addysg ynghyd â chyfleoedd y tu allan i ysgolion i bobl ifanc a theuluoedd wreiddio Cymraeg yn ein cymunedau.

Cydweithrediad – mae yna ystod eang o bartneriaid ymroddedig i gyflawni ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan gychwyn gyda'n plant, pobl ifanc, a theuluoedd yn ein cymunedau. Mae yna lawer o dargedau yn ein cynllun a fydd yn gofyn am wahanol gydweithrediadau esblygol i'w cyflawni. Mae gennym hanes hir o gydweithrediadau cadarnhaol ar draws y rhanbarth i ddatblygu ein hadnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol y blynyddoedd cynnar ar gyfer y sector gofal plant, gan rannu arfer da ac adnoddau ledled ein cymunedau ysgol, yn ogystal â gweithgaredd hyrwyddo drwy ein grŵp swyddogion polisi'r Gymraeg.

Integreiddio – mae llawer o'r canlyniadau yn croestorri dros wahanol gynlluniau a strategaethau gyda chanlyniadau a dangosyddion integredig cyffredin. Mae'n hanfodol cysylltu ar draws yr amrywiol gynlluniau gan gynnwys Strategaeth Iaith Gymraeg, Asesu Digonolrwydd Gofal Plant, Amcan Llesiant Corfforaethol, a rhaglen lywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni'n effeithiol ar feysydd canlyniadau integredig.

Atal – mae'r canlyniadau'n ymestyn ar draws yr holl gyd-destunau demograffig ac

amgylchiadau teuluol ac yn hanfodol i atal effeithiau niweidiol ar blant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn cynnwys rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, i'r rhai a allai ddilyn llwybr academaidd llai traddodiadol a'r rhai a allai fod eisiau dysgu Cymraeg yn ddiweddarach mewn bywyd. Dros gynlluniau diweddar, rydym wedi datblygu darpariaethau arbenigol priodol yn Ysgol Cwm Derwen ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i sicrhau dull cynhwysol cyfannol ar gyfer pob plentyn drwy gydol eu haddysg. Bydd y ddarpariaeth arbenigol yn galluogi plant, waeth beth fo'u hamgylchiadau, eu hanghenion datblygiadol neu feddygol, i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg. Bydd ein cynllun cyfathrebu yn hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd gennym ar gael yn y Fwrdeistref Sirol i deuluoedd i gefnogi eu dewisiadau ynghylch addysg ac annog plant a phobl ifanc i gofleidio'r cyfleoedd a gynigir mewn cymunedau dwyieithog.

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a rhanbarth y De Ddwyrain ers 2001. Fodd bynnag, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol wedi parhau yn gyson. Er bod Arolwg Defnydd y Gymraeg yng Nghymru Comisiynydd y Gymraeg yn dangos bod pobl sy'n rhugl yn y Gymraeg yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn eu bywyd beunyddiol, a dwywaith yn fwy tebygol o fynychu digwyddiad cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, dywed arolwg 2013-15 bod nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ardaloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gostwng o 46% i 38%. Mae hyn yn pwysleisio bod y cyfnod pan fydd pobl ifanc yn gadael addysg cyfrwng Cymraeg yn un hanfodol, o ran sefydlu patrymau defnydd iaith.

Mae Fforwm Addysg Cymraeg Caerffili yn cwrdd o leiaf bob tymor gyda'r prif ddiben o:

- Ffonitro'r amcanion a'r cynlluniau gweithredol partner tuag at gyrraedd targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Rhoi diweddariadau mewn perthynas ag amcanion o fewn eu cylch gwaith sefydliadol
- Hyrwyddo cyfleoedd cydweithredol a phartneriaeth wrth iddynt godi i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a'r cyfleoedd cymunedol sydd ar gael yng Nghaerffili
- Rhannu arfer gorau ac arloesedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerffili yn darparu cludiant i'r ysgol berthnasol (h.y. ysgol dalgyloch neu agosaf) o 1.5 milltir i'r cynradd a 2 filltir i'r uwchradd yn ogystal â chludiant ôl-16 i ysgolion / colegau.

Deallir yn glir bod angen i ni ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i blant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n cyrchu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cynyddu nifer y lleoedd gofal plant ac addysg feithrin gyda dilyniant i ganiatáu pontio 100% trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Mae galw mawr ar draws pob rôl yn y gweithlu am siaradwyr Cymraeg, felly mae'n hanfodol cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr sy'n oedolion.

Ein targed 10 mlynedd dros oes y cynllun hwn yw cynyddu'r lleoedd ym mlwyddyn 1 i rhwng 26% (520) a 30% (600) o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030/31. Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r fethodoleg wrth gyfrifo'r targed yn dangos bod ein canran yn 2019/20 yn 17.9% (rydym yng ngrŵp 3). Mae'r awdurdodau lleol eraill yng Ngwent yng ngrŵp 4. Mae hwn yn darged heriol ac mae angen ei ystyried ar draws pob agwedd ar ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae ein sefyllfa bresennol yn seiliedig ar leoedd gwirioneddol yn y dosbarthiadau derbyn yn 2020, ac mae'n cynnwys amcangyfrifon parhaus ar gyfer lleoedd sydd ar gael ac sy'n cael eu creu drwy ein rhaglen datblygu cyfalaf gyfredol. Yn 2020, roedd 421 o leoedd Cymraeg ar gael a fydd yn cynyddu i 466 o leoedd ar gael ym mlwyddyn 1 erbyn 2031 drwy ein rhaglen gyfalaf ehangu gyfredol. Fodd bynnag, gwir nifer y garfan blwyddyn 1 gyfredol yw 366 o leoedd Cymraeg, sy'n is na'r rhai sydd ar gael. Yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd genedigaethau a cheisiadau, y nifer ym mlwyddyn 1 yn 2031 a ragwelir fydd 411. Mae'n amlwg bod angen datblygu lleiafswm o 54 o leoedd blwyddyn 1 ychwanegol sy'n debygol o greu angen am ysgol gynradd newydd ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol i gyflawni'r targed o sicrhau 26% (520) o blant mewn addysg gyfrwng Gymraeg ym mlwyddyn 1 erbyn 2032. Yn flaenorol, rydym wedi seilio ein datblygiad ar yr Arolwg Galw gan Rien i ddangosodd alw o oddeutu 18%, ond rydym yn symud tuag at osod targed mwy estynedig o 26% erbyn 2032 i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Mae'r dadansoddiad o'r lleoedd yn y Fwrdeistref Sirol yn dangos bod yna feysydd penodol sydd angen eu datblygu. Rhagwelir y bydd symud Ysgol Cwm Gwyddon i Gwmcarn yn gwasanaethu eu dalgylch yn fwy effeithiol o'r lleoliad mwy canolog yn y cwm. Dylai'r lleoliad wella cyfraddau pontio er y bydd o bosibl angen datblygu darpariaethau Ti a Fi a Cylch yng ngogledd a de'r cwm i wasanaethu ehangu posibl yr ysgol. Mae'r safle hefyd yn ddigon mawr i gefnogi datblygu darpariaeth uwchradd yn y dyfodol os bydd angen. Mae cyfyngiad ar gyfer lleoedd yn ardal basn Caerffili wedi'i oresgyn i ddechrau drwy ehangu Ysgol y Castell ac Ysgol Gymraeg Caerffili, ond mae angen datblygu ysgol gynradd Gymraeg yn ardal Bedwas Machen o hyd, yn unol â rhaglen Band B Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Byddai dadansoddiad o'n stoc tai ysgolion yn dangos yr angen i ddatblygu Ysgol Gymraeg Trelyn ac Ysgol y Lawnt er mwyn symud tuag at egwyddorion Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn yr ardaloedd ochr yn ochr â darpariaeth gofal plant. Gyda'r holl ddatblygiadau ehangu neu gyfalaf, byddwn yn ystyried sut y gallwn hefyd ddatblygu gofal plant ar y safle ar gyfer plant 2-11 oed i wella pontio a chefnogi ein teuluoedd sydd angen y ddarpariaeth.

Mae'r camau o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cyd-fynd â'n nodau strategol yn Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd Caerffili:

1. Cynyddu nifer y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad â phlant
2. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, codi eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg, a sicrhau gwell mynediad at weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Cefnogi grwpiau cymunedol a'u helpu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd
4. Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol

Canlyniad 1: Mwy o blant meithrin / plant 3 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg


Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Dadansoddwyd data Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant o ddiweddariad 2020 i ddeall ein sefyllfa bresennol.

Mae lleoedd gwarchodwr plant yn amrywio yn ôl oedran plant a nifer cofrestru ac felly maent wedi'u heithrio o'n cyfrifiad canrannol. Fodd bynnag, mae mwyafrif ein gwarchodwyr plant yn nodi eu bod yn gategori 1 iaith Saesneg neu Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg. Mae 5 gwarchodwr plant sy'n nodi eu bod yn cynnig lleoedd dwyieithog (categori 2 Saesneg / Cymraeg).

Mae darpariaeth gofal plant mewn grŵp yn cynnwys ystod o fathau o ofal plant gan gynnwys meithrinfeydd dydd, cylch chwarae, gofal cofleidiol, ar ôl ysgol, brecwast a darpariaeth wyliau. Mae'r holl leoedd wedi'u cyfrif ar sail eu niferoedd cofrestredig a dim ond unwaith y cawsant eu cyfrif. Mae'r data'n dangos yn y ciplun data 2019/20 cyn-COVID-19, roedd 4361 o leoedd gofal plant cofrestredig, ac roedd 994 (22.8%) yn gategori 3 Cymraeg, a 128 (2.9%) yn gategori 2 Saesneg/Cymraeg yn seiliedig ar ddata Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Caerffili 2020. Mae hon yn sefyllfa gadarnhaol ond mae angen cynnydd mewn lleoedd cofrestredig erbyn 2032 o hyd. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos meysydd lle mae angen ystyried darpariaeth ar gyfer datblygu a pha fath o ddarpariaeth y gallai fod ei hangen. Mae llawer o'r datblygiad cyfredol wedi bod ar safleoedd ysgolion neu'n agos atynt i wella'r pontio.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y gwasanaethau a lleoedd gofal plant a chwarae yn ôl prif iaith waith y gwasanaeth (Data Arolygiaeth Gofal Cymru 2019-20)



Mae gofal plant yn parhau i gefnogi mwy o blant i fynd i ysgol gynradd Gymraeg yn ogystal â chynnig y gwasanaethau cofleidiol i deuluoedd sy'n gweithio.

Lleoliad	Categori	Lleoedd	Lleoedd	Cynnig	Addysg y
----------	----------	---------	---------	--------	----------

Gofal Plant	Iaith	cofrestredig	Dechrau'n Deg	Gofal Plant	Blynyddoedd Cynnar
Cylchoedd Meithrin	3 - Cymraeg	185	62	le	le
Clwb Meithrin, Carco a Gwyliau	3 - Cymraeg	233	0	le	Nage
Dechrau'n Deg Parc Y Felin	3 - Cymraeg	20	20	Nage	Nage
Broga Bach - Meithrinfa Ddydd	2 - Cymraeg / Saesneg	12	0	le	Nage
Dewi Sant	2 - Cymraeg / Saesneg	24	40	le	le

Mae'r garfan feithrin yn bennaf yn yr Ysgol Gynradd yn nhymor Medi ac wedi'i hategu gan 14 o leoliadau heb eu cynnal dan gontract sydd wedi'u cofrestru i ddarparu Addysg Blynyddoedd Cynnar yn nhymor y Gwanwyn a'r Haf bob blwyddyn. O'r 14 lleoliad dan gontract, mae 7 yn gategori 3 Cymraeg ac 1 yn gategori 2 iaith Gymraeg a Saesneg. Yn seiliedig ar ein cyfrifiadau capasiti cyfredol, mae 421 o leoedd meithrin ar gael yn Ysgolion Cynradd Categori 3 Cymraeg a fydd yn cynyddu i 466 o leoedd meithrin erbyn 2032 gyda'n rhaglen buddsoddi cyfalaf gyfredol. Fodd bynnag, y niferoedd cyfredol yn nosbarthiadau meithrin Cymraeg ym mis Medi 2020 oedd 344 sy'n is na'r capasiti a allai fod ar gael, er weithiau nid yw'r galw am leoedd yn y manau y mae capasiti dros ben. Rydym yn deall yr angen i gynyddu nifer y plant sy'n cael mynediad at flynyddoedd cynnar Cymraeg yn narpariaethau Ti a Fi a Cylchoedd a phontio da i'r ysgol gynradd er mwyn cynyddu nifer y plant yn narpariaeth Meithrinfa Gymraeg.

Mae'r siart isod yn rhoi rhestr o'r ddarpariaeth gofal plant cofrestredig cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol gyda'u lleoliad cod post a nifer cofrestredig y lleoedd ydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Enw'r lleoliad gofal plant cofrestredig	Lleoliad	Cod post	Ystod oedran	Nifer cofrestredig y lleoedd ar 17/6/22
Cylch Meithrin Coed Duon	Coed Duon	NP12 1ZR	2-5	19
Cylch Meithrin Cwm Derwen	Derwen	NP12 0JL	2-5	16
Cylch Meithrin Cwm Gwyddon	Abercarn	NP11 5GX	2-5	19
Cylch Meithrin Ifor Bach	Abertridwr	CF83 4AB	2-5	19
Cylch Meithrin Nelson	Nelson	CF46 6NF	2-5	23
Cylch Meithrin Penpedairheol	Hengoed	CF82 8BB	2-5	24
Cylch Meithrin Pontllanfraith	Pontllanfraith	NP12 2GB	2-5	13
Cylch Meithrin Rhymni	Rhymni	NP22 5NB	2-5	16
Cylch Meithrin Mwy Rhymni	Rhymni	NP22 5LS	2-5	27
Cylch Meithrin Tedi Twt	Bargod	CF81 8JG	2-5	18
Cylch Meithrin Tonyfelin	Caerffili	CF83 1PA	2-5	40

Cylch Meithrin Yr Enfys	Ystrad Mynach	CF82 7AS	2-5	20
Clwb Meithrin Cwm Gwyddon	Abercarn	NP11 5GX	3-5	32
Clwb Meithrin Bro Allta	Ystrad Mynach	CF82 7XQ	3-5	38
Clwb Carco Bro Allta	Ystrad Mynach	CF82 7AS	3-10	24
Clwb Carco Caerffili	Caerffili	CF83 3AH	3-10	35
Clwb Carco Cwm Gwyddon	Abercarn	NP11 5GX	3-10	24
Clwb Carco Trelyn	Pengam	NP12 3ST	3-10	19
Clwb Carco Y Castell	Caerffili	CF83 1WH	3-10	50
Clwb Carco Penalltau	Ystrad Mynach	CF82 6AP	3-10	24
Dechrau'n Deg Parc y Felin Flying Start	Caerffili	CF83 3AH	2-3	20

Mae ymrwymiad hir i weithio mewn partneriaeth ym Mwrdeistref Sirol Caerffili i ddatblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar. Mae'r Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn beilot i ddwyn gwasanaethau ynghyd ar gyfer teuluoedd sy'n dileu cymhlethdod ffrydiau cyllido ac yn galluogi mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn gan y person iawn. Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cysylltu'n agos â'r Strategaeth Bydwreigiaeth a Blynyddoedd Cynnar sy'n cael ei datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ogystal â'r cynllun Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar rhanbarthol, sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, Cychwyn Gorau mewn Bywyd. Bydd datblygu perthynas waith agosach â bydwreigiaeth yn gwella gwybodaeth hygyrch i deuluoedd o'r cychwyn cyntaf.

Mae ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i fod wrth galon y blynyddoedd cynnar gan ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd. Mae hyn wedi ennill mwy o bwysigrwydd wrth inni symud i fodel hwb blynyddoedd cynnar (ymyrraeth gynnar gyn-geni i 7 oed). Mae gwefan y blynyddoedd cynnar yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i ddiweddarau'r holl wybodaeth a'i gwneud hi'n haws i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu darpariaeth Gymraeg hygyrch yn dangos trwy ein gwefan blynyddoedd cynnar wedi'i diweddarau, a fydd yn gwneud gwybodaeth yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn brydlon ac yn sicrhau bod gwybodaeth Gymraeg ar gael yn hawdd heb yr angen i chwilio amdani yn benodol. Mae'r wefan yn rhan amlwg yn ein cynllun cyfathrebu a bydd ganddi'r dolenni i wahanol adnoddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys <https://llyw.cymru/cymraeg-i-blant>, www.youtube.com/cymraeg yn ogystal â sianeli cyfryngau cymdeithasol ehangach, yn enwedig Facebook, sydd yn sianel gyfryngau sefydledig ar gyfer ein teuluoedd.

Mae angen gwybodaeth hygyrch ar rieni er mwyn gallu ymgeisio am leoedd meithrin. Mae'r llyfryn 'Cychwyn Ysgol' a'n tudalennau gwe derbyn i ysgolion yn cael eu diweddarau i alluogi teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus waeth beth fo'u cefndir ieithyddol. Mae llyfryn Bod yn Ddwyieithog Becoming Bilingual yn cael ei gynnal ar dudalennau gwe berthnasol i ddangos buddion dwyieithrwydd. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos bod straeon profiad byw cymdeithasol yn dylanwadu mwy ar deuluoedd ac felly dyma lle mae angen i ni ddatblygu ein gwybodaeth wrth symud ymlaen. Defnyddir y straeon yn ein cynllun cyfathrebu a fydd yn cysylltu'r holl adnoddau gyda'i gilydd ac yn eu targedu'n briodol i'n cynulleidfaoedd targed. Mae arolygon blaenorol o alw gan rieni wedi dangos awydd am addysg Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol; byddwn yn adeiladu ar hyn yn ein cynllun cyfathrebu i sicrhau bod

gwybodaeth hygyrch ar gael i rieni cyn gynted â phosibl.

Mae ein tîm derbyniadau wedi symud i geisiadau ar-lein ac yn diweddarau'r wybodaeth a ddarperir i rieni a gofalwyr ar-lein. Mae angen gosod gwybodaeth yn strategol drwy'r system ymgeisio ar-lein i sicrhau bod teuluoedd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am iaith y ddarpariaeth y maent ei eisiau neu'n eu galluogi i gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol i gael gwybodaeth a chefnogaeth.

Mae llawer o deuluoedd yn dysgu am fuddion dwyieithrwydd trwy brofiadau. Mae Cymraeg i blant yn brosiect gan Mudiad Meithrin sy'n cefnogi darpar rieni a rhieni newydd wrth ddewis gofal ac addysg plant cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd prosiect Llywodraeth Cymru yn 2016 ac fe'i rhagflaenwyd â phrosiect Twf a oedd yn rhedeg rhwng 2002-2016 a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd trosglwyddo iaith yn gynnar yn y cartref. Mae swyddog Cymraeg i Blant yn cynnal y sesiynau wythnosol canlynol i Rieni a Babanod ym mhob ardal: Grŵp rhigymanau ac arwyddo Cymraeg, grŵp tyliino babanod ac ioga, Paned a Sgwrs Cymraeg (grŵp ar-lein), sesiynau Ti a Fi yn egluro'n fanwl y siwrnai ddwyieithog (grŵp ar-lein). Hysbysebiri y grwpiau fel rhai sy'n agored i bawb; nid oes angen i rieni allu siarad Cymraeg. Bydd y swyddog yn cyflwyno rhigymanau ac ymadroddion Cymraeg syml yn wythnosol i'w helpu i gaffael gwybodaeth sylfaenol yn ogystal â'u helpu i godi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gartref.

Wrth inni symud allan o gyfyngiadau coronafeirws, bydd grwpiau cymunedol yn ailddechrau, a byddwn yn gweithio gyda swyddogion Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin i ddatblygu Ti a Fi i gynnig cyfleoedd iaith Gymraeg cynnar i blant ifanc iawn a theuluoedd.

Mae swyddogion Mudiad Meithrin yn parhau i weithio gyda'r tîm blynyddoedd cynnar i ddatblygu ac ehangu Cylchoedd Meithrin ar draws y Fwrdeistref Sirol yn enwedig trwy eu rhaglen Sefydlu a Llwyddo. Byddwn yn parhau i annog pob Cylch newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod i dendro i gyflawni ar ein contractau blynyddoedd cynnar gan gynnwys Dechrau'n Deg, Addysg Blynyddoedd Cynnar, Lleoedd â Chymorth a Chefnogaeth yn ogystal â'r Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ddarpariaeth Cymraeg i deuluoedd ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn gweithio tuag at ein targed gofynnol o 26%.

Mae Dechrau'n Deg yn cynnig rhaglen ymyrraeth gynnar ar gyfer plant 0-3 oed sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Yn y rhaglen mae lleoedd gofal plant rhan-amser wedi'u hariannu ar gyfer plant 2-3 oed cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae'r gofal plant yn cefnogi datblygiad plant ac yn adnabod oedi mewn datblygiad yn gynnar. Mae'n heriol cyfrifo canran tymor go iawn o leoedd Dechrau'n Deg yn Gymraeg neu Saesneg gan fod llawer o'n lleoliadau dan gontract yn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal ac mae'r rhai sy'n cael eu cynnal yn darparu ystod o leoedd ac felly nid yw defnyddio eu niferoedd cofrestru yn ddigonol. Ar sail data cynllunio ariannol 2020/21 ar sail tueddiadau defnydd, roedd 549 o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg y flwyddyn ar draws ein lleoliadau ac roedd 10782 (14.94%) ohonynt yng nghategoriâu 3 Cymraeg a lleoliadau gofal plant Saesneg/Cymraeg categori 2 25 (4.55%) sy'n cyfateb i 19.49% ar gyfer y ddau gategori. Mae yna hefyd leoedd gofal plant eraill a ariennir gan gynnwys cynllun Lleoedd â Chymorth a Lleoedd a Gefnogir gan Deuluoedd yn Gyntaf nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhif hwn. Mae'r ganran ar gyfer lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg yn is na'r ganran darged ac felly mae angen ei hystyried yn y datblygu a chynllunio o leoedd dros oes y cynllun hwn.

Bydd yr ehangiad o gam 1 Dechrau'n Deg o fis Medi 2022 yn ehangu'r cymorth i 171 o blant 0-3 oed. Mae gofyniad i ddatblygu'r cynnig Cymraeg i blant ym mhob cam o'r ehangu tuag at leoliad gofal plant 2 flwydd oed cyffredinol a ariennir yn ystod oes y cynllun hwn. Rydym yn ymwybodol i sicrhau bod Cylchoedd presennol yn parhau i fod yn gynaliadwy mewn unrhyw ddatblygiad ac ehangiad yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol. Mae Mudiad Meithrin wedi datblygu cynllun CAMFA o dan y prosiect Sefydlu a Symud i gefnogi datblygu a chreu darpariaethau Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i archwilio datblygiad Ti A Fi newydd yn ardal/ardaloedd ehangu Dechrau'n Deg yn ogystal â'r cais posibl i ddefnyddio cynllun CAMFA i gefnogi darpariaethau cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu harlwy Cymraeg yn dilyn ein Ffordd at Ddwieithrwydd, i gynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn y tymor hwy.

Mae Menter Iaith Caerffili yn berchen ar ac yn rheoli nifer o Glybiau Meithrin, Clybiau Carco, Clybiau Gwyliau Cymraeg categori 3 a nifer fach o Glybiau Brecwast. Maent wedi'u lleoli yn yr Ysgol Gynradd leol neu'n gyfagos iddi er mwyn galluogi pontio cadarnhaol rhwng darpariaethau. Mae llawer o'n darpariaethau gofal plant cofrestredig Menter Iaith Caerffili hefyd yn cyflawni rhai o'r contractau gyda Chyngor Caerffili gan ganiatáu hyblygrwydd i rieni yn eu darpariaeth i ddiwallu eu hanghenion. Mae llawer o'n lleoliadau Menter Iaith a chylchoedd meithrin yn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant sy'n cyfateb ym mis Gorffennaf 2021 i 248 o blant mewn darpariaeth Gymraeg allan o gyfanswm o 978 o blant, sef 25.36%.

Er ein bod wedi ymrwymo i gynyddu a datblygu darpariaeth gofal plant Cymraeg, rydym hefyd yn cydnabod bod darparwyr gofal plant yn frwd dros gynnig mwy o gyfleoedd Cymraeg yn eu lleoliad, sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i'r continwmm ieithyddol. Rydym wedi contractio'r sefydliad sector gwirfoddol, Menter Iaith, i weithio gyda lleoliadau i wella'r Gymraeg y maent yn ei chynnig trwy'r cynllun sicrhau ansawdd Ffordd i Ddwieithrwydd sy'n cynnwys mynediad at hyfforddiant a sesiynau galw heibio caffael Cymraeg. Gall y newid mewn categorïau olygu dros amser symud o leoliadau iaith Saesneg categori 1 i leoliadau Saesneg / Cymraeg categori 2.


Rydym wedi gweld ymrwymiad sylweddol i ddatblygiad darpariaeth Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda nifer o brosiectau cyfalaf parhaus a ariennir o dan Raglen Gyfalaf Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu sy'n cynnwys y prif gynllun a'r is-gynlluniau o dan ddatblygiad yr iaith Gymraeg a datblygiad gofal plant. Bydd y rhaglen gyfalaf gyfredol yn cael ei chwblhau yn ystod oes y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn, ac mae eu cyfraniad at ehangu lleoedd eisoes wedi'i ystyried yn yr amcanestyniad o leoedd erbyn 2032. Fodd bynnag, mae angen rhagor o ddatblygu o hyd i gwrdd â'n targed o 26% (520 o leoedd).

Prosiect cyfalaf	Amlinelliad byr o'r gwaith	Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau	Cynnydd amcangyfrifedig yn y nifer sy'n cael ei dderbyn nifer / blwyddyn
Ysgol Cwm Derwen	Mwy o ystafelloedd dosbarth ac adnewyddu gofal plant	Awst 2022	O 30 i 38 yn 2023
Ysgol Penalltau	Uned feithrin a derbyn	Mai 2022	O 34 i 38 yn 2022

	fwy		
Ysgol y Castell	Adeilad Meithrin newydd, mwy o ystafelloedd dosbarth a mwy o le gofal plant	Ionawr 2022	Cynyddu i 70 o 2023
Ysgol Bro Allta	Mwy o ystafelloedd dosbarth	Mehefin 2022	O 44 i 48 yn 2022
Ysgol Ifor Bach	Adeilad gofal plant newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn cynyddu gofod dosbarth	Ionawr 2022	O 38 i 42 yn 2023
Ysgol Cwm Gwyddon	Ysgol Gynradd newydd ac adeilad gofal plant newydd	Mai 2023	O 35 i 60 yn 2026
Ysgol Gynradd Gymraeg newydd	Ardal Bedwas Tretomos Machen	Erbyn diwedd rhaglen Band B.	Heb ei gynnwys eto yn y niferoedd a ragwelwyd
Darpariaeth gofal dydd cyfrwng Cymraeg	Estyniad pwrpasol i Lyfrgell Pengam	Chwefror 2022	Heb ei gynnwys eto yn y niferoedd a ragwelwyd

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Caerffili yn darparu cludiant i'r ysgol berthnasol (h.y. dalgylch neu'r ysgol agosaf) o 1.5 milltir ar gyfer ysgolion cynradd a 2 filltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn ogystal â chludiant ôl-16 i ysgolion/colegau.

Mae'r graff isod yn dangos canran y plant sy'n trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin i Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n dod trwy aelodau'r Mudiad Meithrin. Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd meithrin, bydd angen i ni ganolbwyntio ar wella'r cyfraddau trosglwyddo ledled yr holl Gylchoedd. Mae'n ymddangos mai'r cyfraddau trosglwyddo sydd orau lle mae'r Cylch ar safle'r ysgol neu'n gyfagos iddo.



Beth oedd effaith coronafeirws?

Yn ystod 2020/21 rydym wedi gweld effaith sylweddol y coronafeirws ar flynyddoedd cynnar a theuluoedd. Yn ystod tymor yr haf 2020, caeodd llawer o Gylchoedd Meithrin a Chlybiau am gyfnodau o amser. Er i lawer ailagor erbyn Medi 2020, roedd effaith sylweddol o hyd ar Glybiau Brecwast a Chlybiau Carco tan haf 2021, gyda'r her o beidio â chymysgu swigod ar safleoedd ysgolion er mwyn olrhain, profi a diogelu a chydymffurfio â'r mesurau diogelu. Teimlwyd yr effaith ar ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol ar safle ysgol mewn lleoliadau Saesneg a Chymraeg. Er bod grantiau cynaliadwyedd wedi cael eu defnyddio i helpu'r sector cyfan i oroesi ac adfywio ym mis Medi 2021, nid ydym eto wedi deall yr effaith lawn ar y galw am leoedd a hyder rhieni. Bydd angen i ni gadw golwg ar hyn wrth inni symud ymlaen, fel nad ydym yn colli tir ar leoedd Cymraeg sydd eisoes wedi'u datblygu a'u cofrestru.

Ble rydyn ni eisiau bod erbyn diwedd ein cynllun a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Ein targed yn 2031/32 yw creu 26% o leoedd gofal plant yng nghategori 3 darpariaeth gofal plant Cymraeg.

Bydd angen i ni ehangu ein lleoedd gofal plant cofrestredig Cymraeg, gan gynnwys lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg, gan ganolbwyntio ar unrhyw ehangu pellach ar ysgolion i alluogi parhad i deuluoedd yn ogystal ag ardaloedd lle nad oes darpariaeth gofal plant Cymraeg ar hyn o bryd. Bydd ehangu'r ddarpariaeth gofal plant yn gofyn am ganolbwyntio ar ddatblygiadau cyfalaf a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â datblygu'r gweithlu i sicrhau bod digon o staff i gynnal gofal plant Cymraeg o ansawdd uchel. Mae hyn wedi dod yn flaenoriaeth uwch fyth gyda chyhoeddiad am ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg a'r ymrwymiad i leoliadau gofal plant wedi'u hariannu'n rhan amser i bob plentyn 2 oed yn ystod oes y cynllun hwn.

Mae cynyddu'r lleoedd sydd ar gael yn un agwedd ond bydd angen i ni hefyd gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y lleoedd hynny i wneud y ddarpariaeth yn gynaliadwy ac yn effeithiol. Felly, byddwn yn datblygu strategaeth hyrwyddo sy'n arloesol ac yn berthnasol i'n cymunedau, gan adeiladu ar yr ymchwil ynghylch defnyddio iaith effeithiol mewn ymgyrchoedd cyhoedduswydd gan osgoi negeseuon negyddol anuniongyrchol. Yn ogystal ag ymgyrchoedd hyrwyddo bydd y broses ymgeisio ar-lein a phresenoldeb ar y we yn sicrhau bod digon o wybodaeth i gynorthwyo teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am iaith addysg eu plentyn.

Bu cryn dipyn o waith cydweithredol gyda Mentrau Iaith, Yr Urdd, RhAG, Mudiad Meithrin ac aelodau eraill WEF o'r blaen wrth ddatblygu taflenni a llyfrynau yn hyrwyddo buddion dwyieithrwydd, presenoldeb cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd ynghyd â chymryd rhan weithredol mewn ymgyngoriadau. Mae swyddogion awdurdodau lleol Grŵp Deddf yn adolygu ac yn diweddarau eu Strategaethau Iaith Gymraeg 5 mlynedd ac ochr yn ochr â'r datblygiad a'r hyrwyddiad sylweddol ar gyfer Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, mae angen amlwg am swyddog hyrwyddo cyfrwng Cymraeg rhanbarthol. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno gan Grŵp Deddf i Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid cychwynnol o 3 blynedd ar gyfer y swydd, i weithio ar draws 5 Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a Strategaethau Iaith Gymraeg 5 awdurdod lleol mewn

dull cydgysylltiedig i hyrwyddo addysg Gymraeg.

Mae'r Rhwydwaith Rhieni wedi bod yn datblygu Hyrwyddwyr Rhieni, sydd fel gwirfoddolwyr yn ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol i gael eu hachredu. Mae'r Hyrwyddwyr Rhieni wedi'u cysylltu â'i gilydd, Rhwydwaith Rhieni a'r blynyddoedd cynnar i sicrhau cysondeb yn y negeseuon a gwybodaeth i deuluoedd ar draws cymunedau. Yn ddiweddar mae nifer wedi ymgymryd â hyfforddiant Dewch i Draffod Elklan i'r rhai dan 5 oed i ddod yn Hyrwyddwyr Iaith a dechrau rhannu ac ymgorffori'r negeseuon lleferydd ac iaith allweddol yn ein cymunedau. Bydd y cysyniad hwn yn cael ei ehangu i ddatblygu Hyrwyddwyr Cymraeg a all ymgorffori'r negeseuon allweddol ynghylch buddion dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn ein cymunedau. Mae hwn yn faes gwaith i'w archwilio a'i ddatblygu ymhellach yn ystod oes y cynllun hwn.

Yn y cyfnod ar ôl adferiad yn dilyn y pandemig, nodwyd bod llawer o grwpiau blaenorol yn y gymuned wedi stopio ac mae heriau i ailgychwyn grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr. Byddwn yn gweithio gyda Mudiad Meithrin, Rhwydwaith Rhieni, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent a Gofalu am Gaerffili i gefnogi rhentu lleoliadau, tra bod y gwirfoddolwyr yn ailgychwyn ac yn ail-gyllido'r grwpiau cymunedol gan gynnwys Ti A Fi. Byddwn yn gweithio ar draws ffrydiau cyllid grant i gefnogi adferiad grwpiau cymunedol.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y plant sy'n mynd i ddosbarth meithrin Cymraeg?

- Defnyddio'r dadansoddiad data Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant wrth weithio gyda phartneriaid i ddatblygu darpariaeth gofal plant Cymraeg categori 3 a'i adolygu'n flynyddol. Gweithio gyda swyddogion Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth newydd o dan y cynllun Sefydlu a Symud yn ardal Tretomos. Gweithio gyda swyddogion Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth Ti A Fi yn ardal ehangu cam 1 Dechrau'n Deg ac archwilio cynllun CAMFA mewn darpariaeth gofal plant bresennol yn yr ardal ehangu i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir. Parhau i weithio gyda'r Mudiad Meithrin i ddatblygu rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg lloeren mewn unrhyw ardaloedd ehangu yn y dyfodol i fodloni'r cynnig gofal plant rhan amser cyffredinol a ariennir ar gyfer plant 2 oed yn ystod oes y cynllun hwn.
- Defnyddio'r data cyfraddau trosglwyddo daearyddol ar gyfer pob lleoliad i dargedu gwaith gyda swyddogion Mudiad Meithrin a Chylchoedd i wella cyfraddau trosglwyddo o'r Cylch i feithrinfa'r ysgol.
- Parhau i weithio ar y cyd ar draws partneriaid i sicrhau'r cyllid buddsoddi cyfalaf mwyaf posibl, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth Gymraeg categori 3.
- Datblygu cynllun cyfathrebu 10 mlynedd gyda cherrig milltir/tasgau hyrwyddo blynyddol, a fydd yn cael ei gefnogi gan swydd y swyddog cyhoeddusrwydd rhanbarthol. Bydd y cynllun yn cynnwys dal profiadau byw i newid y sgwrs ddiwylliannol â chymunedau, a datblygu hyrwyddwyr rhieni Cymraeg, llyfrau stori plant o Petra a deunyddiau dysgu, ac wedi'u hamseru i dargedu meysydd gweithredu'r rhaglen gyfalaf. Mae angen i'r cynllun hyrwyddo edrych ar sut rydyn ni'n defnyddio gwahanol offer neu wybodaeth ar gyfer targedu gwahanol grwpiau gan gynnwys mynediad hwyr neu drosglwyddiadau o

gyfrwng Saesneg, plant ag anghenion neu anabledau datblygiadol sy'n dod i'r amlwg, a genedigaethau newydd.

- Gweithio gyda rhieni a gofalyddion i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt i lywio eu dewisiadau o ran darpariaeth iaith ar gyfer addysg, gan gynnwys adnoddau, presenoldeb ar y we, gweithgareddau, ac ati, gan ymgorffori hyn yn ein cynllun cyfathrebu.
- Gweithio gyda Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Rhwydwaith Rhieni a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent i gefnogi grwpiau cymorth cymheiriaid yn y gymuned i gael eu datblygu a'u rhedeg gan wirfoddolwyr.
- Gweithio gyda'r tîm derbyn i ystyried taith y rhiant wrth wneud cais am leoedd ysgol, gan sicrhau bod gan rieni wybodaeth am addysg Gymraeg trwy gydol y broses ar-lein gan gynnwys buddion dwyieithrwydd / amlieithrwydd a pholisï'r hwyrddyfodiaid.
- Cefnogi'r Ffordd i Ddwyieithrwydd ar gyfer lleoliadau gofal plant Saesneg i symud ymlaen trwy'r continwrm tuag at ddarpariaeth gofal plant Cymraeg categori 3.
- Bydd y camau uchod yn cysylltu â thargedau strategaeth 5 mlynedd yr iaith Gymraeg.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu data lleol wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer lleoedd gofal plant cofrestredig, lleoliadau meithrinfa a lleoliadau gofal plant a ariennir i ddeall lle mae angen datblygu.

Canlyniad 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / plant 5 oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Wrth gyfrifo'r data ar gyfer ein sefyllfa bresennol rydym wedi defnyddio'r lleoedd go iawn yn y dosbarth derbyn yn 2020 ac wedi cynnwys amcangyfrifon parhaus ar gyfer lleoedd sydd ar gael ac sy'n cael eu creu trwy ein rhaglen datblygu cyfalaf gyfredol (gweler y tabl yn ardal canlyniad 1). Yn 2020 roedd 421 o leoedd Cymraeg ar gael a fydd yn cynyddu i 466 o leoedd ar gael ym mlwyddyn 1 erbyn 2031 o'r prosiectau cyfalaf sydd ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gwir nifer y garfan blwyddyn 1 gyfredol yw 366 o leoedd Cymraeg, sy'n is na'r rhai sydd ar gael ac yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd genedigaethau a cheisiadau rhagwelir y bydd y nifer ym mlwyddyn 1 yn 2031 yn 411.

Mae'r data'n dangos yr angen i hyrwyddo lleoedd Cymraeg categori 3 sydd ar gael, y gallai fod angen eu targedu'n benodol at ardaloedd lle mae'r lleoedd ar gael gan nad ydyn nhw'n unffurf ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori yn ein cynllun cyfathrebu gyda cherrig milltir hyrwyddo penodol wedi'u targedu.

Mae'r data hefyd yn dangos, os ydym am gyrraedd ein targed o 26% o blant o leiaf mewn addysg Gymraeg, bydd angen 520 o leoedd ym mlwyddyn 1 sy'n 54 lle

ychwanegol ac sy'n cyfateb i oddeutu 2 ddsbarth fesul grŵp blwyddyn o'r prosiectau cyfalaf sydd ar waith ar hyn o bryd. ar ben y rhaglen gyfalaf bresennol sydd i'w chwblhau yn 2023/24. Gellid cyflawni'r 54 lle sydd eu hangen (2 ddsbarth) drwy Ysgol Gynradd Gymraeg categori 3 newydd ynghyd ag ehangu'r ddarpariaeth bresennol ymhellach. Mae datblygu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd (nifer derbyn o 30 o leoedd) yn ardal Bedwas, Tretomos, Machen a gynllunnir yn y Cynllun Amlinellol Strategol ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn hanfodol i symud tuag at gyrraedd ein targed lleiafswm o 26%. Fodd bynnag, bydd angen ehangu pellach arnom hefyd i fodloni'r 54 o leoedd sydd eu hangen (24 o leoedd ychwanegol yng nghyfanswm y niferoedd derbyn). Byddwn yn gweithio ar y cyd ar draws rhanddeiliaid ac yn ceisio sicrhau'r cyllid mwyaf posibl sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r lleoedd Cymraeg sydd eu hangen.

Ar hyn o bryd mae ein hysgolion cynradd yn derbyn plant i'r Cyfnod Sylfaen sy'n cefnogi eu caffaeliad Cymraeg trwy dechnegau trochi yn yr ystafell ddsbarth. Mae plant a phobl ifanc yn gallu trosglwyddo i'r Gymraeg ar unrhyw adeg yn eu haddysg, er mai ychydig sy'n gwneud hynny, er bod gan ein Hysgol Uwchradd yr offer i gefnogi'r pontio. Fodd bynnag, wrth i hyrwyddiad gynyddu dros oes y cynllun hwn ac wrth i agweddau cadarnhaol geisio addysg Gymraeg, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y galw am leoedd Cymraeg a'r angen am bolisi ffurfiol i hwyrddyfodiaid ynghyd â darpariaeth drochi benodol i gefnogi hyn. Mae hwn yn angen datblygu yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn.


Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar hyn o bryd mae gennym 2 brif gategori o ysgolion, naill ai ysgol Saesneg Categori 1 neu ysgol Gymraeg Categori 3. Nid oes gennym unrhyw ysgolion Saesneg / Cymraeg categori 2 sy'n cyflwyno 50% Saesneg a 50% Cymraeg. Yn ystod yr adolygiad o leoedd ysgol a'r gofyniad i gynyddu nifer y lleoedd ysgol Gymraeg efallai y bydd angen ystyried trosglwyddo o gategori 1 i gategori 2 ysgol Saesneg / Cymraeg. Fodd bynnag, byddai angen dadansoddiad manwl pellach hyn ymhellach a chynnal asesiadau effaith integredig i ddeall y goblygiadau i gymunedau cyn bwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad yn y maes hwn.

Mae'r tabl yn nodi enw'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, y lleoliad a'r rhif sy'n gysylltiedig â'r map yn ogystal â'r nifer o leoedd, ceisiadau ac apeliadau ar gyfer pob ysgol fel y'i cyhoeddir yn y llyfryn Dechrau Ysgol yn flynyddol.

	Ysgol	Cyfeiriad	Capasiti	Ystod Oed	Nifer y derbeniadau	Nifer y ceisiadau dderbynwyd am ddsbarth 2021	Nifer y lleoedd a gynigir	Nifer yr apelladau a dderbynwyd	Nifer yr apelladau llwyddiannu
62	Ysgol Bro Sannan	Ty Fry Road, Aberbargod, Bargod, CF81 9FN	206	3 to 11	29	9	9	0	0
63	Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili	Heol Pontygwindy, Caerffili, CF83 3HG	389	3 to 11	55	59	55	1	0
64	Ysgol Gymraeg	Gwyddon Road, Abercarn, NP11	251	3 to 11	35	29	29	0	0


	Ysgol	Cyfeiriad	Capasiti	Ystod Oed	Nifer y derbeniadau	Nifer y ceisiadau dderbyniwyd am ddsbarth 2021	Nifer y lleoedd a gynigir	Nifer yr apeladau a dderbyniwyd	Nifer yr apeladau llwyddiannu
	Cwm Gwyddon	5GX							
65	Ysgol Gymraeg Trelyn	Commercial Street, Pengam, Coed Duon, NP12 3ST	195	3 to 11	27	21	27	0	0
66	Ysgol Ifor Bach	Ffordd Ifor, Abertridwr, Caerffili, CF83 4AB	270	3 to 11	38	33	33	0	0
67	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	Commercial Street, Gilfach, Bargod, CF81 8JG	210	3 to 11	30	6	6	0	0
68	Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell	Heol u Cilgant, Caerffili, CF83 1WH	486	3 to 11	70	48	48	0	0
69	Ysgol Gymraeg Bro Allta	Stryd Ganalog, Ystrad Mynach, CF82 7XQ	308	3 to 11	44	44	44	0	0
70	Ysgol y Lawnt	Surgery Hill, Rhymni, NP22 5LS	206	3 to 11	29	18	18	0	0
71	Ysgol Penallta	Heol Cwm Calon, Penalltau, Ystrad Mynach, CF82 6AP	240	3 to 11	34	24	24	0	0
72	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	Llwyn I Ffawyddden, Oakdale, NP12 0JL	210	3 to 11	30	18	18	0	0
85	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Split Site)	Heol Gelli Haf, Trelyn, Coed Duon, NP12 3JQ and Y Gwyndy, Heol Pontygwindy, Caerffili, CF83 3HG	2148	11 to 19	358	349	349	0	0

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau ein hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyda'r rhif yn ymwneud â'r rhif yng nghlofn 1 uchod.



Bydd angen ffurfioli polisi'r hwyrddyfodiaid i gefnogi pontio plant a phobl ifanc i addysg Gymraeg. Bydd hefyd angen datblygu darpariaeth benodol i gefnogi caffael a throchi Cymraeg. Yn ystod 2021-22, bu Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gweithio gyda'i hysgolion cynradd clwstrwr i ddatblygu deunyddiau i gefnogi trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid ac ymchwilio i fodelau/darpariaeth eraill i hwyrddyfodiaid eraill ledled Cymru. Yn ystod hanner cyntaf y cynllun hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ymchwil hon i ddatblygu, profi a gwerthuso model posibl ar gyfer darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid.

Nifer y dysgwyr yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol, ac yn ôl blwyddyn. Ffynhonnell - [Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, StatsCymru](#)



Beth oedd effaith coronafeirws?

Gadawodd y coronafeirws ei effaith ar ein holl gymunedau. Roedd rhieni a gofalmwyr yn poeni nad oeddent yn gallu cefnogi eu plant i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac felly roeddent yn ystyried symud plant o ysgol Gymraeg i ysgol Saesneg. Roedd ein Hysgolion Cynradd ac Uwchradd, yr Urdd a Menter Iaith yn estyn allan at deuluoedd i gynig cefnogaeth ac adnoddau ar-lein perthnasol iddynt i'w cefnogi i gefnogi eu plant a lleihau pryder. Helpodd hyn i gynnal y niferoedd yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg ar ôl dychwelyd ac mae wedi adeiladu mecanweithiau cymorth y mae angen eu cadw ar gyfer teuluoedd wrth symud ymlaen.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Yn ôl y data yn y ffurflenni PLASC a'r amcangyfrifon a ragwelir gan dîm cynllunio ysgolion yr 21^{ain} ganrif, mae angen datblygu 54 o leoedd ysgol Gymraeg ychwanegol a allai olygu bod angen o leiaf un Ysgol Gynradd Gymraeg newydd (Cynllun Amlinellol Strategol ar gyfer ysgol newydd yn ardal Bedwas, Tretomos, a Machen) yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth Ysgol Gynradd bresennol ymhellach.

Pan fyddwn yn hyrwyddo buddion dwyieithrwydd neu ddatblygiad amlieithrwydd, rhagwelir y gall plant a phobl ifanc ddewis symud i ddarpariaeth Gymraeg. Bydd angen i ni sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc sy'n dewis pontio i'r Gymraeg yn cael eu cefnogi i wneud hynny trwy'r polisi hwyrdyfodiaid a'r ein datblygiad o gynllun trochi peilot ddarpariaeth sy'n benodol i gefnogi caffael y Gymraeg.

Mae angen i ni sicrhau bod digon o leoedd i blant a phobl ifanc sy'n mynd i addysg Gymraeg barhau trwy gydol eu hoes addysg. Mae data'n dangos yr angen i gael lleoedd ysgol uwchradd Cymraeg ychwanegol erbyn 2029.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y plant sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn 5 oed?

- Mae cyrraedd y targed lleiaf o 26% i 30% o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032 yn uchelgais heriol. Bydd angen i ni wneud cais am gyllid i Lywodraeth Cymru wrth iddo ddod ar gael a sicrhau'r cyllid mwyaf posibl ar gyfer lleoedd ysgolion a gofal plant er mwyn bodloni'r nifer targed sy'n ofynnol i fod ar gael. Bydd hyn yn golygu bod angen 54 o leoedd ychwanegol yn y nifer derbyn a bydd angen datblygu'r Ysgol Gynradd newydd a gynllunnir yn y Cynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Bedwas, Tretomos a Machen.
- Byddwn yn ffurfioli polisi'r hwyrdyfodiaid ac yn ei gyhoeddi ar-lein ochr yn ochr â gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a'r cais am leoedd ysgol i dderbyniadau. Mae hefyd angen archwilio a datblygu, profi a gwerthuso darpariaeth benodol i gefnogi trochi hwyrdyfodiaid i alluogi i blant a phobl ifanc fynd i'r garfan briodol ar gam ieithyddol addas.
- Sicrhau bod y 466 o leoedd yn cael eu defnyddio neu fod derbyniadau'n cael eu monitro i lenwi 466 o leoedd. Os yw pryderon yn codi yn ystod y broses dderbyn, mae angen i ni ddefnyddio'r cynllun cyfathrebu i gefnogi gwaith hyrwyddo penodol.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu setiau data lleol wedi'u diweddarau i ddangos lleoedd dros ben a thueddiadau'r niferoedd sy'n manteisio arnyn nhw, gan nodi lle y gallai fod angen datblygu darpariaeth ychwanegol ymhellach yn ogystal ag effaith gwaith hyrwyddo lleol.

Canlyniad 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Mae ein cyfradd bontio rhwng cyfnodau allweddol mewn addysg statudol yn dda ac mae wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf i agos at 100% a'n nod yw parhau â'r gallu hwn i bob plentyn sy'n cychwyn ar eu taith addysg Gymraeg Categori 3. Felly, ein tasg yw cynyddu nifer y plant sy'n dechrau darpariaeth Gymraeg yn ystod oedran meithrin 3 oed, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n pontio trwy'r cyfnodau addysg a chwblhau cymwysterau trwy'r Gymraeg.

Blwyddyn	Nifer blwyddyn 6	Nifer blwyddyn 7	Canran trosglwyddo i flwyddyn 7
2017	352	334	94.89%
2018	355	337	94.93%
2019	336	331	98.51%
2020	329	320	97.26%

2021	356	352	98.88%
------	-----	-----	--------

Mae pob un o'n hysgolion Cymraeg categori 3 yn cynnig yr holl ddarpariaeth a chymwysterau trwy'r Gymraeg gan fod ymchwil yn dangos yr angen am drochi Cymraeg lle mae llawer o blant yn dod o gartrefi Saesneg.

Rydym yn cynllunio ehangu ein darpariaeth Gynradd Gymraeg, ond gyda chyfradd bontio o bron i 100% rhwng cyfnodau addysg statudol, bydd angen cynllunio ar gyfer lleoedd addysg uwchradd ychwanegol yn fuan. Erbyn 2027 bydd y capasiti mewn addysg uwchradd yn drech na'r galw ac felly bydd angen i ni gynllunio ar gyfer lleoedd ysgol uwchradd ychwanegol. Dywedodd adroddiad ymgynghori diweddar am ddatblygiad cyfalaf ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, 'Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y safle arfaethedig ar gyfer ei ail-leoli ôl troed llawer mwy na safle presennol Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Bydd yr ôl troed arfaethedig ar gyfer yr ysgol gynradd newydd hefyd yn caniatáu ar gyfer ehangu yn y dyfodol, gan gynnwys y potensial ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, a fydd hefyd yn cefnogi gofynion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a chefnogi rhaglen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn trefnu cyfres o weithgareddau pontio i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn arloesol wrth ddenu disgyblion yn ôl i'r chweched dosbarth. e.e. cynnal dwy noson agored rithiol ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 a'u rhieni; cyflwyno llawlyfr opsiynau a gwefan gynhwysfawr ar gyfer pob disgybl; trefnu bod pob adran yn cyflwyno gwybodaeth am eu cyrsiau ynghyd â chyfleoedd i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi yn rhithiol. Cyfoethogir y gefnogaeth ymhellach trwy gynnig apwyntiadau pwrpasol gyda'r tîm llesiant er mwyn derbyn cyngor pellach. Yn ogystal, mae'r ysgol yn trefnu bore coffi a chofrestru ar gyfer disgyblion, o'r ddau safle, lle cânt gyfle i gwrdd yn anffurfiol â'r tîm cyfnod allweddol 5 a sicrhau bod y trefniadau pontio mor llyfn â phosibl cyn mis Medi.

BLWYDDYN	CA4	6ed Dosbarth	Canran pontio
2020	579	207	35.75
2021	640	270	42.19
2022	676	332	49.11
2023	660	369	55.91
2024	687	385	56.04
2025	715	376	53.00
2026	718	394	54.87
2027	744	407	54.70
2028	734	410	55.86
2029	729	425	58.30
2030	750	416	55.47
2031	744	417	56.05

Mae swyddogion Mudiad Meithrin yn mesur y cyfraddau trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin Cymraeg i ysgolion meithrin Cymraeg ac mae hwn yn faes o welliant parhaus sydd ei angen. Fodd bynnag, nid yw pob darpariaeth Gymraeg yn y

Fwrdeistref Sirol yn aelod o Mudiad Meithrin ac felly nid yw eu cyfraddau pontio, er eu bod yn ddangosydd da, yn adlewyrchu'r darlun cyfan yn y Fwrdeistref Sirol. Mae angen parhaus i ddeall pam y gall rhieni ddewis darpariaeth gofal plant Cymraeg a pheidio â pharhau i addysg feithrin Gymraeg. Rydym yn rhagweld, wrth i fwy o ddarpariaeth gofal plant gael ei symud i safleoedd ysgolion, y bydd hyn yn gwella cyfraddau trosglwyddo. Bydd angen monitro hyn unwaith y bydd y rhain yn weithredol.

Mae'r cyfraddau pontio rhwng yr 11 ysgol gynradd Gymraeg yn parhau i fod yn uchel ar 100% oherwydd y perthnasoedd gwaith agos yn y clwstwr. Mae timau Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gweithio'n agos gyda'r 11 ysgol gynradd i sicrhau bod pob disgybl yn barod i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes. Mae cynlluniau pontio clir gyda gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd (diwrnodau gweithgaredd, prosiectau gwyddoniaeth a diwrnodau cerddoriaeth ynghyd â diwrnodau pontio a nosweithiau i gynnwys eu teuluoedd) ochr yn ochr â chynlluniau mentora ar y cyd ar gyfer plant agored i niwed.

Mae Caerffili bob amser wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i alluogi pawb i rannu adnoddau a gwella ansawdd, er enghraifft, ysgolion sy'n gweithio'n agos ar ddatblygu adnoddau, gan gynnwys adnoddau ADY gyda datblygiad y Ddeddf newydd. Enghraifft arall yw'r grŵp llywio partneriaeth y blynyddoedd cynnar i ddatblygu adnoddau ADY, gweithio integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer y teuluoedd mwyaf agored i niwed, ac ati. Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i wella cyfraddau pontio a mynediad ar gyfer teuluoedd i ddarpariaeth Gymraeg.

Beth oedd effaith coronafeirws?

Effaith gyfyngedig a gafodd y coronafeirws ar gyfraddau pontio rhwng cyfnodau addysg statudol, ond roedd yn cyfyngu ar y digwyddiadau pontio a gweithgareddau eraill sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn ysgol.

Effeithiodd y coronafeirws ar gyflenwi rhai darpariaethau gofal plant yn enwedig Clwb Carco a rhai Cylchoedd Meithrin yn ystod cyfnodau brig y clo. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y darpariaethau hyn i gyd yn parhau'n gynaliadwy i ailgychwyn wrth symud ymlaen.

Nid ydym yn deall eto'r effaith y gallai coronafeirws ei chael ar geisiadau i ddosbarthiadau meithrin addysg Gymraeg yn ogystal â sut y gallai effeithio ar y rhieni hynny sy'n dewis symud plant o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i iaith Saesneg.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi llawer o'r darpariaethau Cylchoedd Cymraeg er nid pob darpariaeth gofal plant Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion Mudiad Meithrin a'n tîm blynyddoedd cynnar ein hunain i gynyddu'r gyfradd bontio tuag at 100% o ofal plant Cymraeg i ddosbarth meithrin Cymraeg yn 3 oed erbyn 2032.

Bydd cyfraddau pontio ar gyfer darpariaethau gofal plant ar safleoedd ysgolion yn

cael eu monitro i ddeall a yw rhieni'n gwneud dewisiadau amgen ar gyfer iaith yr ysgol.

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i weithio gyda'r 11 ysgol gynradd clwstwr i barhau i sicrhau'r gyfradd drosglwyddo 100% rhwng cyfnodau addysg.

Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall effaith coronafeirws ar gyfraddau pontio a chyfraddau ymgeisio a byddwn yn adolygu hyn dros y blynyddoedd i ddod.


Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i alluogi i blant wella eu sgiliau Cymraeg?

- Byddwn yn monitro cyfraddau pontio ar gyfer yr holl ddarpariaethau gofal plant Cymraeg ar safle ysgol i ddeall lle nad yw rhieni eisiau parhau ag addysg Gymraeg i'w plentyn.
- Byddwn yn monitro cyfraddau pontio lle bo hynny'n bosibl i'r lleoliadau hynny nad ydynt yn aelodau o Mudiad Meithrin i greu darlun o bontio i addysg Gymraeg. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill gyda chyfraddau pontio gwell i ddatblygu atebion posibl ar gyfer Caerffili.
- Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall effaith coronafeirws ar gyfraddau pontio a chyfraddau ymgeisio a byddwn yn adolygu hyn dros y blynyddoedd i ddod.
- Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac ein tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif i gynllunio darpariaeth gofal plant ochr yn ochr â datblygiad ysgolion cynradd yn ogystal â chynllunio ar gyfer ehangu lleoedd mewn ysgolion uwchradd i barhau â'r gyfradd bontio 100% trwy addysg statudol.
- Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i weithio gyda'r 11 ysgol gynradd yn y clwstwr i barhau â'i chyfradd bontio 100%.
- Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i weithio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 4 i wella cyfraddau trosglwyddo i Chweched Dosbarth.


Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer eu cymwysterau asesedig yn Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Canran y dysgwyr a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. *Ffynhonnell - [Asesiadau Athrawon Diwedd Cyfnod Allweddol 2, StatsCymru](#)*



Nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf. Ffynhonnell - [Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, StatsCymru](#)



Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi'i rhannu dros ddau safle: Gellihaf ac Y Gwindy. Capasiti'r ddau safle gyda'i gilydd yw 2318. O'r niferoedd a ragwelir, cyrhaeddir y capasiti erbyn 2029, ac os byddwn yn parhau i lenwi lleoedd yn ein hysgolion cynradd Cymraeg, bydd y galw posibl yn cynyddu i 3280 wrth i'r plant symud trwy'r Ysgol Gynradd a phontio i'r Uwchradd dros y blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygu mwy o ddarpariaeth ysgol uwchradd, a fydd hefyd yn cynyddu nifer y

dysgwyr a asesir ar gyfer cymwysterau yn Gymraeg yn y dyfodol.

BLWYDDYN	CA3	CA4	6ed Dosbarth	Cyfanswm
2020	989	579	207	1775
2021	1006	640	270	1916
2022	1025	676	332	2032
2023	1065	660	369	2093
2024	1083	687	385	2155
2025	1083	715	376	2174
2026	1096	718	394	2208
2027	1094	744	407	2245
2028	1110	734	410	2254
2029	1144	729	425	2298
2030	1176	750	416	2342
2031	1219	744	417	2380

Cynigir ystod eang o opsiynau pwnc, cyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac mae nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn uwch na'r disgwyl yn y ddau gyfnod allweddol (36 cwrs yng nghyfnod allweddol 4 a 32 cwrs yng nghyfnod allweddol 5). Yn y modd hwn, mae cwricwlwm yr ysgol yn diwallu anghenion pob disgybl. Gwneir hyn yn ddychmygus trwy gydweithrediad effeithiol iawn gyda phartner allweddol, e.e. cyrsiau penodol fel trin gwallt ac adeiladu yng Ngholeg y Cymoedd yn Ystrad Mynach. Fodd bynnag, cyflwynir y chweched dosbarth ar un safle (Gellihaf) a gall hyn effeithio ar ddysgwyr sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, gan symud yn lle hynny i golegau addysg bellach sy'n agosach i'w cartrefi neu sy'n haws eu cyrraedd.

Yn 2020/21 parhaodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i ddysgu cwrs 'Llwyddo' ychwanegol gyda 52 o ddisgyblion na lwyddodd mewn rhai pynciau TGAU. Mae hyn yn galluogi i'r ysgol ddarparu cwricwlwm wedi'i deilwra iddynt gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau ac yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig a fydd yn eu helpu yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cynnig cymhwyster 'cyllid personol' eleni oherwydd y cyfnod clo ond mae cynlluniau cadarn ar waith, gan gynnwys staffio priodol, i gyflawni hyn ynghyd â chysiau sgiliau coginio y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC) lefel 1/2, Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 1/2 gwaith coed, tystysgrif lefel 2 Cymru, Ewrop a'r Byd, a thystysgrif addysg lefel 2 sy'n gysylltiedig â gwaith, ar gyfer disgyblion targed. Dyluniwyd cwricwlwm cyfnod allweddol 4 yn feddylgar er mwyn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd ac adnoddau ar y ddau safle ar gyfer pynciau ymarferol e.e. tecstilau a dylunio a thechnoleg. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn cael ei hystyried yn elfen bwysig o ddarpariaeth yr ysgol.

Mae darpariaeth yng nghyfnod allweddol 5 yn nodwedd gref iawn o waith Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae'r ysgol yn llwyddo i sefydlu cwricwlwm eang, cyfoethog a

chytbwys sy'n cynnwys ystod eang o gyrsiau UG, Safon Uwch a BTEC Lefel 3. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynllunio darpariaeth effeithiol ar gyfer yr ychydig iawn o ddisgyblion nad ydynt yn bodloni'r trothwy mynediad ar gyfer cyrsiau lefel 3 o 5A*-C trwy'r cyrsiau lefel 2 yn y chweched dosbarth. Mae'r cwrs hwn yn cynnig blwyddyn ychwanegol o bontio i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gyflawni ei botensial. Y llynedd, manteisiodd hanner y disgyblion hyn ar y llwybr pontio hwn cyn symud ymlaen i astudio pynciau Lefel 3.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithredu'n greadigol ag ysgolion uwchradd Cymraeg lleol a choleg cyfagos (e.e. Coleg y Cymoedd, Gartholwg, Llanhari a Sant Gwynllyw) i gynnig ystod eang o gyrsiau gan gynnwys cwrs Gofal Plant galwedigaethol amser llawn (CACHE) i ddisgyblion blwyddyn 13.

Mae Coleg y Cymoedd yn cefnogi dysgwyr Cymraeg i barhau â'u defnydd o'r Gymraeg yn rhai o'r cyrsiau trwy fodiwlau gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg. Yn 2019-20, darparwyd unedau iaith ar Waith (Gofal Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg) mewn cyrsiau Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwy, Busnes, Teithio a Thwristiaeth, Y Diwydiannau Creadigol, Peirianeg, Adeiladu, Trin Gwallt, Harddwch, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon. Yn ddiweddar, mae Coleg y Cymoedd hefyd wedi penodi darlithydd Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn gallu cyflwyno'r cyrsiau Chwarae, Dysgu a Datblygu Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddwyieithog yn ôl yr angen wrth symud ymlaen.

Cefnogir ysgolion uwchradd Saesneg gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno cyrsiau TGAU Cymraeg yn ogystal â'r ymrwymiad i gefnogi'r Siarter Iaith.

Er bod cysylltiadau da rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg y Cymoedd mae angen gwella cysylltedd â Choleg Gwent wrth symud ymlaen. Mae pryder hefyd efallai na fydd pobl ifanc a allai fod angen cyrchu Addysg ac Eithrio mewn Ysgol yn gallu parhau â'u haddysg trwy'r Gymraeg, er eu bod yn cael eu cefnogi gan yr Urdd i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg pan nad ydyn nhw yn yr ysgol. Mae angen ystyried hyn wrth symud ymlaen i sicrhau y gall pobl ifanc barhau â'u hiaith Gymraeg mewn darpariaeth addysg amgen.

Beth oedd effaith coronafeirws?

Yn ystod 2020 datblygodd y timau addysgu ystod eang o adnoddau cwricwlwm i blant a theuluoedd i gefnogi parhad addysg Gymraeg a chefnogi pontio trwy gamau addysg statudol.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r 11 Ysgol Gynradd wedi datblygu prosiect i gefnogi plant a phobl ifanc i wella eu sgiliau iaith Gymraeg ym mis Medi 2021 trwy berfformiad celfyddydol a cherddorol. Yn ystod coronafeirws effeithiwyd ar blant a phobl ifanc o gartrefi iaith Saesneg sy'n mynychu ysgol Gymraeg trwy beidio â chael eu trochi yn yr iaith er gwaethaf ymdrechion gorau timau dysgu a rhieni i gynnal y sgiliau iaith. Bydd y prosiect hwn yn annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau creadigol.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Rydym eisiau i bob person ifanc sy'n cyrchu addysg Gymraeg astudio cymwysterau trwy'r Gymraeg mewn ystod eang o bynciau.

Rydyn ni eisiau i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cyrchu Addysg ac Eithrio mewn Ysgol barhau i gyrchu pynciau trwy'r Gymraeg os ydyn nhw wedi bod mewn addysg Gymraeg yn ogystal â chynnig cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno pontio o'r iaith Saesneg i'r Gymraeg.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg?

- Bydd blwyddyn gyntaf y cynllun gweithredu yn nodi'r data gwaelodlin yn yr isod er mwyn gallu targedu gwelliant yn y dyfodol
 - Nifer y cyrsiau galwedigaethol a gynigir yn yr awdurdod lleol
 - Nifer y disgyblion sy'n astudio Safon Uwch yn y Gymraeg
 - Darpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau â'i phartneriaeth â Choleg y Cymoedd ac yn cryfhau'r berthynas â Choleg Gwent i sicrhau bod gan bob dysgwr ystod eang o gymwysterau Gymraeg ar gael iddynt.
- Bydd timau Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn ystyried sut y bydd y cyfleoedd addysg amgen yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r Gymraeg i sicrhau y gall pobl ifanc barhau i ddefnyddio'r Gymraeg a chael cymwysterau drwy'r Gymraeg os ydynt yn dewis, er enghraifft, recriwtio tiwtor Gymraeg neu ddatblygu datrysiad arloesol gyda chlwstwr ysgolion Gymraeg.
- Bydd y tîm cynllunio ysgolion yn monitro'r nifer sy'n cymryd lleoedd uwchradd ac yn cynllunio ar gyfer ehangu darpariaeth uwchradd cyn cyrraedd y capasiti mwyaf er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio cymwysterau trwy'r Gymraeg.
- Datblygu deunyddiau hyrwyddo priodol mewn ystod o gyfryngau i annog mwy o bobl ifanc i ystyried astudio Gymraeg fel pwnc gan gynnwys astudio Gymraeg ar Safon Uwch. Bydd hyn yn cysylltu â thargedau strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg.
- Bydd yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn parhau i weithio gyda'r timau arwain ysgolion uwchradd i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud ar hyd continwwm y Gymraeg a chynyddu'r nifer sy'n astudio cymhwyster yn y Gymraeg.
- Bydd cyrsiau dysgu Gymraeg i oedolion yn cael eu cefnogi er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cyrsiau ar draws cymunedau.

Canlyniad 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Yng Nghaerffili mae gennym berthnasoedd gwaith agos â'r Urdd, Menter Iaith a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r bartneriaeth ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn galluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae Urdd yn cynnig ystod eang o brofiadau Cymraeg i blant a phobl ifanc ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys clybiau celfyddydau cymunedol, ystod eang o ddarpariaethau chwaraeon gan gynnwys cystadlaethau ar lefel leol i genedlaethol, adnoddau digidol a chlybiau yn ogystal â gwersylloedd preswyl yr Urdd sy'n galluogi i'n plant a phobl ifanc gael profiadau cymdeithasol trochi'r Gymraeg. Mae'r Urdd hefyd yn cyflwyno Eisteddfod yr Urdd sy'n brofiad Cymraeg rhyfeddol i'r sir gyfan ac yn arbennig o bwysig yn ein Bwrdeistref Sirol lle mae llawer o gartrefi yn siarad Saesneg. Mae'r Urdd hefyd wedi datblygu prentisiaethau Cymraeg ac yn annog pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli yng Nghaerffili.

Yng Nghaerffili mae gennym hefyd Swyddog Ieuenctid yr Urdd sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sy'n gweithio'n agos iawn gyda Menter Iaith a'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol yn y Gymraeg, gan ategu at y ddarpariaeth ysgol. Mae'r Urdd a'r Fenter Iaith hefyd yn gweithio'n agos gyda Chwaraeon Caerffili/Sports Caerffili i sicrhau bod ein holl weithgareddau gwyliau ysgol hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae swyddog yr Urdd, a ariennir gan yr Urdd, Menter Iaith a'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn cefnogi cyflwyno gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol yn ogystal ag o fewn ysgolion uwchradd Saesneg ac yn y prosiect Innovate sy'n un o'n darpariaethau Addysg ac Eithrio mewn Ysgol.

Yng Nghaerffili mae ein Menter Iaith yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu gweithgareddau Cymraeg ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Yn ogystal, mae ein Menter Iaith yn cyflogi staff gofal plant a chwarae cymwys cyfrwng Cymraeg i gynnal darpariaeth gofal plant cofrestredig ar ôl ysgol a gwyliau. Mae'r ddarpariaeth gofal plant Gymraeg hon yn cefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn ogystal â galluogi plant a phobl ifanc i gael profiadau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio gyda Menter Iaith a'r Urdd i ddatblygu darpariaeth ieuenctid Cymraeg yn yr Hwb Ieuenctid sydd newydd ei ddatblygu ym masn Caerffili. Er y bwriedir i hyn fod ar un noson yr wythnos ar y dechrau, efallai y bydd angen i hyn gynyddu yn y dyfodol. Bydd yr angen am unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei adnabod trwy'r prosiect pilot y maent yn ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd angen ystyried yn ofalus y penderfyniad i gyflwyno sesiynau Cymraeg ychwanegol neu integreiddio siaradwyr Cymraeg i'r sesiynau presennol. Ar hyn o bryd, credir bod sesiynau siarad Cymraeg yn annog pobl i siarad Cymraeg yn ystod y sesiynau a pheidio â throï'n ôl at y Saesneg yn aml, fel yn y cartref neu gyda ffrindiau sy'n digwydd yn aml mewn darpariaethau dwyieithog yn

lleol.

Bydd y prosiect cydweithredol rhwng Menter Iaith, Yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuencid yn cynnwys ymarfer mapio a gynhelir gyda phobl ifanc o fis Medi 2021 (gan gynnwys y ganran o waith ieuencid a ddarperir yn y Gymraeg), asesu anghenion siaradwyr Cymraeg ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol, asesu sut mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi'r Siarter Iaith Gymraeg, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu prosiect ieuencid Cymraeg wrth symud ymlaen. Bydd y prosiect hwn yn adnabod pa gefnogaeth neu ddarpariaeth y mae pobl ifanc eisiau eu cyrchu ac yn adnabod y bylchau yn y gefnogaeth neu'r ddarpariaeth hon, y bydd angen inni weithio ar y cyd i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r Siarter Iaith (a elwir yn Gymraeg Campus mewn ysgolion cynradd Saesneg) yn fframwaith ar gyfer annog defnyddio'r Gymraeg. Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg rôl sylfaenol wrth gefnogi'r Siarter Iaith ar draws ein holl ysgolion, trwy hwyluso dysgu proffesiynol ar gyfer Cydlynwyr Siarter, gan rannu arfer gorau ac adnoddau, cynnig gefnogaeth bwrpasol, yn ogystal â gwerthuso a dilysu cynnydd tuag at y gwobrau. Mae 35 o 58 o ysgolion cynradd Saesneg yn gweithio tuag at y dyfarniadau Cymraeg Campus, tra bod pob un o'r 11 Ysgol Gynradd Gymraeg wedi ennill dyfarniad arian yn y Siarter Iaith gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn symud ymlaen i gyfnod 3 (allan o 5 cyfnod).

Beth oedd effaith coronafeirws?

Yn ystod 2020/21 bu aflonyddwch sylweddol i'n plant a'n pobl ifanc wrth gael mynediad at weithgareddau ysgol a thu hwnt i'r ysgol. Aeth llawer o'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar-lein. Roedd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae llawer mwy o adnoddau bellach ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd y gellir eu cyrchu'n hawdd. Fodd bynnag, cafwyd effaith niweidiol ar blant yn defnyddio'r Gymraeg pan oeddent yn dod yn bennaf o gartrefi Saesneg eu hiaith a lle nad oedd teuluoedd yn hyderus i roi cynnig ar y Gymraeg gyda'r plant a'r bobl ifanc. Cefnogodd ysgolion deuluoedd hyd y gallent i godi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ond o ganlyniad i'r effaith hon ar ddefnydd plant o'r Gymraeg, mae'r ysgolion wedi datblygu prosiect llythrennedd celfyddydau a drama sy'n dechrau ym mis Medi 2021. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu fideos i arddangos profiadau a datblygiad iaith Gymraeg y disgybl. Efallai y bydd y fideos yn ein cefnogi i ddatblygu ein gwaith hyrwyddo.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Yng Nghaerffili rydym eisiau i'n holl blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg gael cyfleoedd i ddefnyddio'u hiaith yn anffurfiol y tu allan i'r ysgol. Mae angen i ni ddeall canran y cyfleoedd ieuencid Cymraeg y mae'r gwasanaeth ieuencid cyfan yn eu cynnig a gweithio i gynyddu'r ganran yn unol â'r targed 26% erbyn 2031 i sicrhau cydraddoldeb yn y cynnig i'n holl bobl ifanc.

Rydym eisiau i'n holl blant a phobl ifanc allu cyrchu profiadau chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol trwy'r iaith o'u dewis. Byddwn yn gweithio ar y cyd i adnabod ffrydiau cyllido mwy cyson.

Rydym eisiau i'n holl blant a phobl ifanc gael profiadau cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hysgol a thu allan i'r ysgol. Felly, bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn parhau i weithio i sicrhau bod pob ysgol gynradd yn cymryd rhan yn

Cymraeg Campus ac yn symud ymlaen trwy'r cyfnodau dyfarnu.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau?

- Nodi a yw datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i gynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol unigol ac arweinydd yr ysgol ym mlwyddyn 1 y cynllun gweithredu i nodi targedau lefel ysgol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol
- Ym mlwyddyn 1 y cynllun gweithredu, bydd ymarfer cwmpasu yn mapio gwaith yr Urdd a'r Fenter Iaith o fewn cyd-destun yr ysgol yn ogystal â mapio amser ar gyfer gweithgareddau (tu fewn a thu allan i'r dosbarth) i atgyfnerthu sgiliau Cymraeg i fod yn waelodlin ar gyfer gwaith datblygu yn y dyfodol.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Urdd, Menter Iaith, y Gwasanaeth Ieuencid a Chwaraeon Caerffili/Sports Caerphilly i ddarparu cyfleoedd allgyrsiol cymdeithasol Cymraeg o fewn a thu allan i'r ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.
- Parhau i weithio gydag aelodau fforwm Strategaeth Gymraeg i sicrhau bod gwaith hyrwyddo a thargedau yn cael eu cydgysylltu'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r prosiect ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau cyfleoedd ehangach yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc. Mae'n debygol y bydd angen cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl ifanc 11 oed i fyny. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn y bartneriaeth rhwng yr Urdd, Menter Iaith a'r Gwasanaeth Ieuencid.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i adnabod ffrydiau cyllido parhaus ar gyfer cyfleoedd Cymraeg y tu allan i'r ysgol gan symud o grantiau adweithiol neu ymatebol i brosiectau a ariennir yn fwy strategol er mwyn sicrhau cysondeb wrth gyflawni.
- Gwasanaeth Ieuencid i weithio gyda Menter Iaith, Yr Urdd a phartneriaid ehangach i fapio canran y ddarpariaeth ieuencid a ddarperir trwy'r Gymraeg a chydweithio i gynyddu'r cynnig i darged o 26% erbyn 2032.
- Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio gyda'r holl Ysgolion Cynradd i gael 100% o Ysgolion Cynradd Saesneg i gymryd rhan a symud ymlaen trwy'r cyfnodau dyfarnu erbyn 2032.

Canlyniad 6: Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf ADY)

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Ein Hamcan Corfforaethol Caerffili yw gwella cyfleoedd Addysg i bawb. Mae hon

wedi bod yn egwyddor arweiniol ac mae cynhwysiant yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'n Strategaeth Addysg.

Mae'n bwysig adnabod oedi datblygiadol sy'n dod i'r amlwg cyn gynted â phosibl. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gan bob darparwr gofal plant cofrestredig arweinydd Anghenion Ychwanegol (AY) addas sydd wedi cyrchu'r modiwlau ADY i gynnig darpariaeth gynhwysol i blant dan eu gofal. Yn y blynyddoedd cynnar rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i adeiladu llwybr cadarn o gefnogaeth i deuluoedd o adnabod yn gynnar ym maes ymwelydd iechyd i gefnogaeth gan dimau ymyrraeth gynnar i gymorth iechyd mwy arbenigol. Mae ISCAN (Gwasanaeth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol) yn parhau i fod ein cydlyniant canolog i weithwyr proffesiynol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Mae yna ystod o gefnogaeth i deuluoedd adnabod a all y plant gael mynediad at ddarpariaeth ddysgu brif ffrwd gyda'r gefnogaeth / strategaethau cywir ar waith neu a oes angen darpariaeth fwy arbenigol. Mae cyhoeddusrwydd cefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddatblygu fel cam i sicrhau bod cefnogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae gan y timau cynghori Addysg ystod o weithwyr proffesiynol a nifer o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi plant ar draws ein hysgolion cynradd Cymraeg prif ffrwd. Mae pob Ysgol Gynradd Gymraeg yn darparu ystod o ddarpariaeth ar lefel gyffredinol ac wedi'i thargedu i gefnogi cynnwys plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ein darpariaeth prif ffrwd. Fodd bynnag, mae angen darpariaeth fwy penodol ar rai plant i fodloni eu hanghenion dysgu. Mae gan Ysgol Gymraeg Cwm Derwen sylfaen adnoddau arbenigol ar gyfer plant oedran ysgol gynradd ag anghenion cymhleth sydd angen cefnogaeth fwy penodol i gael mynediad i'r amgylchedd dysgu.

Yn debyg i'n hysgolion cynradd sy'n cynnig darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu ym mhob ysgol, mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni hefyd yn cynnig darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg ar eu dau safle. Fodd bynnag, mae angen darpariaeth fwy penodol ar rai pobl ifanc i fodloni eu hanghenion dysgu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ffurfioli'r gefnogaeth arbenigol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i ategu at eu hadran Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda'r Ganolfan a'r Hafan. Mae'r Ganolfan yn uned anghenion cymhleth sydd wedi'i hen sefydlu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sy'n cynnig cefnogaeth wahaniaethol ac unigol i ddisgyblion gael mynediad at gymaint o'r cwricwlwm â phosibl. Mae'r Hafan yn ystafell sydd wedi'i dylunio'n benodol ac wedi'i staffio gan athrawon a chynorthwyr profiadol hyfforddedig i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau ymddygiadol emosiynol cymdeithasol cymhleth. Yn ogystal, mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain ein datblygiad clwstwr ADY cyfrwng Cymraeg, gan gefnogi CADY Ysgolion Cynradd gan sicrhau darpariaeth gynhwysol yn ogystal ag uwchsgilio staff ar draws ein holl ysgolion Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol i fod yn gwbl barod ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae gweithwyr proffesiynol ADY profiadol iawn ledled y rhanbarth gan gynnwys yn ein gwasanaeth Synhwyrdd a Chyfathrebu rhanbarthol (SENCOM). Datblygir y gwaith datblygu rhanbarthol yn ein grŵp ADY Consortia De Ddwyrain Cymru

rhanbarthol dan arweiniad yr Arweinwyr Cynhwysiant ym mhob awdurdod lleol.

Beth oedd effaith coronafeirws?

Yn ystod 2020/21 bu aflonyddwch sylweddol i'n plant a'n pobl ifanc wrth gael mynediad at weithgareddau ysgol a thu allan i'r ysgol. Aeth llawer o'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar-lein. Roedd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac mae llawer mwy o adnoddau bellach ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd y gellir eu cyrchu'n hawdd. Fodd bynnag, ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd, teimlwyd effaith aflonyddwch yn yr ysgol yn fwy difrifol. Er bod ystod o gefnogaeth i'n dysgwyr mwyaf bregus, mae'r angen am gysondeb o ran mynediad i addysg wrth symud ymlaen yn hanfodol. Mae ysgolion yn canolbwyntio ar ddulliau arloesol i ddal i fyny â'r amser a gollwyd i'n holl blant a phobl ifanc.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Yng Nghaerffili rydym eisiau i bob plentyn a pherson ifanc allu cyrchu'r amgylchedd dysgu sy'n briodol i'w hanghenion. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cynnig ymyriadau cyn gynted â phosibl i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a nodi'r ddarpariaeth fwyaf priodol i ddiwallu anghenion addysgol y plentyn.

Rydym eisiau sicrhau bod digon o staff medrus sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion dysgwyr a meithrin olyniaeth yn ein gweithlu.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Byddwn yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun gweithredu er mwyn deall gwaelodlin a datblygu targedau
- Archwilio'r holl ymyrraeth gynnar i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gefnogaeth i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Datblygu gwybodaeth hygyrch briodol i deuluoedd i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael trwy'r Gymraeg i gael gwared ar bryderon neu rwystrau canfyddedig.
- Gweithio gyda thîm PETRA i ddatblygu neu ddefnyddio llyfrau a deunyddiau dysgu plant i gynorthwyo rhieni i wneud dewisiadau ar gyfer iaith Addysg eu plentyn.
- Datblygu astudiaethau achos a phrofiadau byw teuluoedd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi ffynnu yn narpariaeth Gymraeg.
- Archwilio gallu'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a datblygu cynaliadwyedd o fewn y model cymorth.
- Gweithio ledled y rhanbarth i rannu adnoddau perthnasol sydd wedi'u datblygu.

Canlyniad 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw ein sefyllfa bresennol?

Mae'r tabl isod yn dangos ein gweithlu cyfredol ar gyfer ein 10 Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg a'n hysgol Uwchradd yn ôl data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion Tachwedd 2020 ar wefan StatsWales.gov.uk a gwefan Llywodraeth Cymru [Canlyniadau Cyfrifiad y Gweithlu Ysgol: yn Nhachwedd 2020 | GOV.WALES](#)

Defnyddir ffigurau cyfwerth â phobl lawn yn y tabl a fyddai'n is na'r hyn sy'n cyfateb i amser llawn ond sy'n adlewyrchu rolau cyfan sy'n amser tymor yn unig ar gyfer niferoedd mwy cymharol.

Mathau o staff	Bwrdeistref Sirol Caerffili	Ysgolion Cyfrwng Cymraeg	Cynradd	Uwchradd
Cyfanswm athrawon cymwys	1410	235	120	115
Penaethiaid gweithredol	10	0	0	0
Penaethiaid	65	10	10	*
Dirprwy benaethiaid	80	10	10	*
Penaethiaid cynorthwyol	45	0	0	*
Athrawon dosbarth cymwys	1215	210	100	110
Cyfanswm y staff cymorth	1310	180	140	40
Cynorthwywyr addysgu lefel uwch	100	20	20	0
Cynorthwywyr addysgu	720	120	100	20
Staff cymorth AAA	150	*	*	0
Rheolwr busnes ysgol	20	*	*	*
Staff cymorth bugeiliol	40	*	0	*
Staff TGCh	20	*	0	*
Staff gweinyddol	175	20	15	10
Staff gwyddoniaeth a labordy	20	*	0	*
Swyddog arholiad / goruchwylwyr	10	0	0	0
Staff cymorth eraill	55	5	5	*

* mae'r nifer hwn yn uwch na sero ond yn llai na phump

Byddwn yn defnyddio'r data hwn i gynllunio ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol ar gyfer cynllunio ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unol â datblygu darpariaeth ysgol newydd neu estynedig trwy'r tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Fel mater o drefn, mae Cyngor Caerffili bob amser yn gwerthuso'r potensial ar gyfer cydweithredu ag ysgol arall pan fydd recriwtio yn digwydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ysgolion sydd â chofrestr fach o fyfyrwyr, cyllidebau ariannol gostyngol

a/neu ysgolion nad ystyrir eu bod yn cyflawni eu potensial. Mae cydweithredu wedi bod yn offeryn defnyddiol ar gyfer rhannu arfer gorau ar draws Cyngor Caerffili a chadw penaethiaid effeithiol ac uchelgeisiol. Ar hyn o bryd mae saith cydweithrediad ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili; mae un ohonynt yn cynnwys Ysgol Bro Sannan gydag Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed. Yn dilyn cyfnod o gydweithio o'r blaen mae pedair ysgol ychwanegol wedi ffedereiddio; mae pob un ohonynt yn ysgolion Saesneg.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Caerffili faterion sy'n ymwneud â recriwtio penaethiaid. O'r 86 o ysgolion, ar hyn o bryd, dim ond un cyfrwng Cymraeg sydd â phennaeth dros dro (Dirprwy Bennaeth wedi camu i fyny i'r rôl). Lle gwelwn y gallai fod problem, rydym yn mynd ati i geisio cydweithredu â phennaeth profiadol. Fodd bynnag, rydym yn deall pryderon gan ysgolion ac aelodau Fforwm Addysg Cymraeg ynghylch datblygu digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn ymuno â'r gweithlu a bydd angen i ni weithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac addysg gychwynnol i athrawon i hyrwyddo Addysg fel gyrfa i'n pobl ifanc sy'n gadael yr Ysgol Uwchradd.

Mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni enw da am ddatblygu eu staff a'u tîm arweinyddiaeth eu hunain trwy eu cynlluniau galwedigaethol a'u cysylltiadau â sefydliadau Addysg ehangach sy'n cefnogi lleoliadau myfyrwyr. Mae angen ehangu hyn i'n hysgolion ehangach i annog y gallu i dyfu ein timau addysg. Mae gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol restr chwarae i gefnogi dysgu proffesiynol. Yn yr un modd, mae Mudiad Meithrin a'r tîm blynyddoedd cynnar wedi cefnogi lleoliadau a chymwysterau galwedigaethol i dyfu ein gweithlu gofal plant. Mae cynllun Cam Wrth Gam gyda Mudiad Meithrin wedi profi peth llwyddiant wrth ddatblygu staff gofal plant cymwys gyda lleoliadau yng Nghylchoedd Meithrin. Mae'r cymhwyster galwedigaethol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant hefyd wedi cael ei gefnogi gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg y Cymoedd i annog ein pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r gweithlu gofal plant ac addysg. Mae pryder bod angen i fyfyrwyr fod mewn cyflogaeth o leiaf 16 awr yr wythnos er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cymhwyster gofal plant lefel 2 neu 3, ond oherwydd nad oes ganddynt gymhwyster, ni chânt eu cynnwys yn y gymhareb oni bai eu bod wedi bod mewn lleoliad am fwy na 12 wythnos. Mae hyn yn her i rai darparwyr sesiynol os ydyn nhw'n gweithredu llai na'r 16 awr ofynnol. Mae angen ystyried hyn ar lefel Llywodraeth Cymru os daw'n rhwystr i bobl newydd ymuno â'r gweithlu gofal plant.

Mae Mudiad Meithrin mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru yn cynnig cyfle prentisiaeth newydd i gymhwyso fel ymarferydd Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu Lefel 3. Mae'r brentisiaeth hon yn addas ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi (neu a fydd yn cael eu cyflogi o ddyddiad cychwyn y brentisiaeth) gan leoliadau sy'n aelodau o Mudiad Meithrin, meithrinfeydd dydd Cymraeg preifat ac ysgolion Cymraeg. Hyd y cwrs yw 18 mis, a bydd yn rhaid cyflogi dysgwyr yn y lleoliad am o leiaf 16 awr yr wythnos.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn rhan o Bartneriaeth Prifysgol De Cymru. Mae model pwrpasol o gefnogaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer datblygu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n rhedeg fel rhan o'r Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn y Brifysgol.

Wrth ymuno â'r gweithlu mae yna lawer o fecanweithiau i gefnogi datblygiad pellach yn eu gyrfa broffesiynol. Mae'r tîm blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda Mudiad

Meithrin i hyrwyddo cymwysterau gofal plant pellach a datblygiad proffesiynol parhaus i ddarparu amgylcheddau gofal plant o ansawdd. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi dysgu proffesiynol ar hyd y llwybr drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn partneriaeth â'r rhanbarthau eraill ac wedi'i achredu gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, fel sy'n briodol. Mae'r cyrsiau a gyflwynir yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ac Arweinwyr Canol ar lefel gynradd ac uwchradd yn ogystal â'r rhaglen arweinyddiaeth uwch a gefnogir gan fodel hyfforddi cyfrwng Cymraeg pwrpasol.

Mae Menter Iaith yn gweithio gyda lleoliadau i gynyddu defnydd Cymraeg y staff gyda'r plant trwy'r Ffordd i Ddwieithrwydd. Mae tîm cydraddoldeb Cyngor Caerffili yn hwyluso cyrsiau Cymraeg i gynyddu'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg ar draws sectorau ehangach sy'n ategu'r gweithlu addysg mewn ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi rhaglen ddysgu a rhwydweithio broffesiynol ranbarthol ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mae cefnogaeth i staff ddysgu patrymau iaith sy'n berthnasol i'w cyfnod addysgu ac i wella eu methodoleg dysgu iaith ac iaith. Mae cynllun sabothol Cymraeg yn parhau i gael ei gefnogi ond cyfyngedig yw'r lleoedd yn rhanbarthol gydag oddeutu 10-14 fesul cwrs a nifer gyfyngedig o gyrsiau sydd ar gael bob blwyddyn, sy'n cyfateb i oddeutu 3 y flwyddyn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yn ystod 2017-18 roedd 2 aelod o staff a gwblhaodd y cynllun Cymraeg mewn Blwyddyn, yn 2018-19 roedd 3, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf mae hyn wedi cynyddu i 4 aelod o staff y flwyddyn.

Beth oedd effaith coronafeirws?

Yn ystod y pandemig coronafeirws aeth llawer o gyrsiau ar-lein yn y byd rhithwir ac roedd gan staff rywfaint o allu i ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion roedd lleoliadau yn statig neu wedi'u hoedi a oedd yn effeithio ar gymwysterau galwedigaethol.

Ble rydyn ni eisiau bod a sut y byddwn ni'n cyrraedd yno?

Rydym eisiau gweithio'n rhagweithiol gyda'n gweithlu i ddatblygu digon o siaradwyr Cymraeg i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a'u cymunedau ehangach.

Beth yw'r camau lefel uchel sy'n ofynnol i gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg?

- Bydd blwyddyn gyntaf y rhaglen waith yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r gweithlu i weithredu fel gwaelodlin ac adnabod tueddiadau a datblygiadau sydd eu hangen yn y dyfodol
 - Dadansoddiad gweithlu o ba weithlu fydd ei angen yn y 10 mlynedd nesaf i staffio'r ysgol newydd a darpariaeth estynedig ynghyd â digonolrwydd yn y gweithlu presennol.
 - Dadansoddiad o sgiliau iaith y gweithlu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

- Dadansoddiad blynyddol o weithlu cyfrwng Cymraeg yn gysylltiedig â chyfraddau trosglwyddo dysgwyr
- Yn dilyn y dadansoddiad cynhwysfawr o'r gweithlu, byddwn yn gweithio gydag ysgolion unigol a chynllun busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i osod targedau i gynyddu sgiliau iaith y gweithlu.
- Byddwn yn defnyddio ein cynllunio lleoedd ysgol ochr yn ochr â'n data cyfrifiad gweithlu ysgolion i gynllunio'r angen am staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd neu estynedig.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon i gefnogi datblygiad y gweithlu addysg.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a ffederasiwn wrth i gyfleoedd godi.
- Byddwn yn gweithio gyda'n pobl ifanc yn yr ysgol uwchradd a Gyrfa Cymru i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant, addysg, a chyfleoedd gweithlu ehangach i siaradwyr Cymraeg.
- Byddwn yn gweithio fel tîm blynyddoedd cynnar gyda Mudiad Meithrin a Menter Iaithynghyd ag ysgolion uwchradd ledled y rhanbarth, Coleg y Cymoedd a Choleg Gwent i ddatblygu ein gweithlu gofal plant.
- Byddwn yn codi ein pryderon am newydd-ddyfodiaid i weithlu gofal plant gan fod darparwyr sesiynol yn methu â chyflogi staff heb gymhwyso ar 16 awr i allu cyrchu'r cwrs cymhwyster.
- Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu llwybrau arloesol ar gyfer dilyniant gyrfa drwy ein gweithlu addysg ni.